# Cyllid & Tollau EM

# Nodiadau CF411
# Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref (HRP)

## Rhagarweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi gwybodaeth i'ch helpu i benderfynu a allwch wneud cais am Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref (HRP). Darllenwch y nodiadau hyn ac yna'u cadw mewn man diogel i gyfeirio atynt yn y dyfodol. Os ydych yn penderfynu eich bod am wneud cais ar gyfer HRP, llenwch y ffurflen gais 'Gwneud cais am Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref Yswiriant Gwladol (CF411)' a ddaeth gyda'r nodiadau hyn. Neu, ewch i www.gov.uk/government/publications/national-insurance-application-form-for-home-responsibilities-protection-cf411.cy

## Beth yw HRP?

Efallai y bydd HRP ar gael i lenwi blynyddoedd treth llawn o 6 Ebrill 1978 i 5 Ebrill 2010, a gall helpu i ddiogelu'ch sefyllfa o ran Pensiwn y Wladwriaeth os yw'r canlynol yn wir:

- ni wnaethoch weithio o gwbl
- fe wnaethoch weithio, ond ni wnaethoch ennill digon yn ystod blwyddyn dreth i wneud i'r flwyddyn gyfrif at ddibenion Pensiwn y Wladwriaeth, a chawsoch ddyfarniad Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed
- roeddech yn gofalu am berson sâl neu anabl yn y cartref, ac nid oeddech yn cael Lwfans Gofalwr am yr un cyfnod
- roeddech yn ofalwr maeth cymeradwy neu'n ofalwr cymeradwy sy'n berthynas ar gyfer blynyddoedd treth o 6 Ebrill 2003 i 5 Ebrill 2010

## Sut mae HRP yn gweithio

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010, defnyddiwyd nifer y blynyddoedd treth llawn pan gawsoch HRP i ostwng nifer y blynyddoedd cymwys yr oedd eu hangen arnoch i gael Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn (hyd at uchafswm o 20 mlynedd). Er mwyn cael Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn, roedd angen 39 o flynyddoedd cymwys ar fenyw ac roedd angen 44 ar ddyn.

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2010, mae blynyddoedd treth llawn o HRP wedi'u trosi'n gredydau Yswiriant Gwladol. Defnyddir y rhain i gronni blynyddoedd cymwys ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch wirio'ch cofnod Yswiriant Gwladol ar-lein yn www.gov.uk/cyfrif-treth-personol. Does dim rhaid i chi wneud cais am HRP os yw'r flwyddyn dreth yr ydych yn credu y gallai fod ar goll eisoes yn dweud 'blwyddyn lawn', gan ei bod eisoes yn cael ei chyfrif fel blwyddyn gymwys ar gyfer eich cyfrifiad Pensiwn y Wladwriaeth.

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2016, roedd angen 30 mlynedd cymwys arnoch ar eich cofnod Yswiriant Gwladol i gael y Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn.

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2016, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael Pensiwn y Wladwriaeth newydd pan fyddwch yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae gwybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth newydd ar-lein yn www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd

Os nad ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth eto, gallwch wirio'ch rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth a'ch cofnod Yswiriant Gwladol ar-lein yn www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

**Pwysig**

Bydd angen i chi wneud cais am HRP o hyd os ydych yn credu ei fod ar goll o'ch cofnod Yswiriant Gwladol. Gweler 'Sut i wneud cais' ar dudalen 2.

## Gwragedd priod a gwragedd gweddw

Os ydych yn wraig briod neu'n wraig weddw, ac roedd gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- talu cyfradd is o gyfraniadau Yswiriant Gwladol fel cyflogai
- peidio â thalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 tra'n hunangyflogedig

ni fyddwch yn gymwys ar gyfer HRP ar gyfer unrhyw flwyddyn dreth rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 2010, pan oedd yr etholiad cyfradd is mewn grym.

### Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch am eich cais am HRP, cysylltwch â:

Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

Ffôn: 0300 200 1900

Ffôn: Testun 0300 200 3519

I gael gwybod am ein horiau agor, gallwch ein ffonio, neu ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/welsh-language-helplines

### Gallwch wirio'ch cofnod Yswiriant Gwladol a Phensiwn y Wladwriaeth ar-lein

Gallwch gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth, ac adolygu'ch cofnod Yswiriant Gwladol i wirio am fylchau, drwy'r gwasanaeth ar-lein 'Cyfrif Treth Personol'. Ewch i www.gov.uk/cyfrif-treth-personol

### Credydau Yswiriant Gwladol

Mae nifer o gredydau Yswiriant Gwladol y gellir eu defnyddio i helpu i lenwi bylchau neu flynyddoedd yn y dyfodol ar eich cofnod Yswiriant Gwladol. Er enghraifft, os ydych yn gofalu am berson sâl neu anabl am 20 awr neu fwy yr wythnos, efallai y byddwch yn gymwys i gael Credyd Gofalwyr. I gael rhagor o wybodaeth am gymhwystra ar gyfer credydau YG, a sut i wneud cais, ewch i www.gov.uk/national-insurance-credits

### Credydau i rieni a gofalwyr

O 6 Ebrill 2010 ymlaen, disodlwyd HRP gan gredydau i rieni a gofalwyr.

Os ydych am hawlio credydau i rieni a gofalwyr oherwydd y cawsoch Fudd-dal Plant neu Gymhorthdal Incwm fel gofalwr ac rydych yn credu bod y credydau ar goll o'ch cofnod Yswiriant Gwladol, neu eich bod yn ofalwr maeth cymeradwy neu'n ofalwr cymeradwy sy'n berthynas, bydd angen i chi lenwi ffurflen CF411A 'Gwneud cais am gredydau Yswiriant Gwladol os ydych yn rhiant neu'n ofalwr'. I gael rhagor o wybodaeth am gredydau i rieni a gofalwyr, ewch i www.gov.uk/government/publications/national-insurance-credits-for-parents-and-carers-cf411a.cy

## Sut i wneud cais

Llenwch ffurflen gais 'Gwneud cais am Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref Yswiriant Gwladol (CF411)' os yw'r canlynol yn wir:

- cawsoch ddyfarniad Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed, ac rydych yn credu bod HRP ar goll o'ch cofnod Yswiriant Gwladol
- nid chi oedd yr unigolyn a gafodd ddyfarniad Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed – mae'n bosibl y byddwn yn gallu trosglwyddo HRP o gofnod Yswiriant Gwladol hawliwr y Budd-dal Plant i'ch cofnod chi os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008 (sylwer: gweler hefyd 'Trosglwyddo hawl i HRP' isod)
- rydych yn ofalwr maeth cymeradwy neu'n ofalwr cymeradwy sy'n berthynas
  - i wneud cais fel gofalwr maeth cymeradwy neu ofalwr cymeradwy sy'n berthynas, mae angen i chi anfon llythyr o gadarnhad cyfredol atom, sydd ar gael oddi wrth yr awdurdod lleol neu'r asiantaeth faethu y gwnaethoch gofrestru â hi. Ni allwn ystyried eich cais heb y llythyr hwn
- rydych yn ofalwr sy'n gofalu am berson sâl neu anabl am 35 awr neu fwy yr wythnos, ac yn cael budd-dal cymwys
- cawsoch ddyfarniad Cymhorthdal Incwm oherwydd eich bod yn gofalu am berson sâl neu anabl, ac rydych yn credu bod HRP ar goll o'ch cofnod Yswiriant Gwladol

## Terfynau amser

Os ydych wedi cael dyfarniad Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 16 oed, neu os ydych yn ofalwr maeth cymeradwy neu'n ofalwr cymeradwy sy'n berthynas, does dim terfynau amser yn eich atal rhag gwneud cais am HRP os nad yw hwn eisoes wedi'i ddyfarnu.

Os ydych yn ofalwr sy'n gofalu am berson sâl neu anabl am gyfnodau o ofal rhwng:

- 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 2002, does dim terfynau amser yn eich atal rhag gwneud cais am HRP os nad yw hwn eisoes wedi'i ddyfarnu
- 6 Ebrill 2002 a 5 Ebrill 2010, mae'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio erbyn hyn
  - nid ydych yn gallu hawlio HRP fel gofalwr sy'n gofalu am berson sâl neu anabl am y cyfnod hwn

## Trosglwyddo hawl i HRP

Weithiau, roedd y person a oedd yn gweithio am gyflog yn hawlio Budd-dal Plant, yn hytrach na'r person a oedd yn aros gartref i ofalu am y plentyn. Ar gyfer blynyddoedd treth rhwng 6 Ebrill 1978 a 5 Ebrill 2010, os oedd gan hawliwr y Budd-dal Plant flwyddyn gymwys eisoes ar ei gofnod Yswiriant Gwladol yn ystod cyfnod HRP, gall ei briod, partner neu bartner sifil wneud cais i gael trosglwyddo'r HRP i'w gofnod Yswiriant Gwladol ei hun.

Mae angen i chi fodloni rhai amodau er mwyn i HRP gael ei drosglwyddo, sef:

- nid yw hawliwr y Budd-dal Plant yn gofyn am yr HRP ei hun, oherwydd ei fod eisoes wedi talu - neu wedi cael ei gredydu gyda - digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol i'w gwneud yn flwyddyn gymwys at ddibenion budd-daliadau heb yr HRP
- roeddech yn byw gyda hawliwr y Budd-dal Plant am y cyfnod perthnasol, ac roeddech yn rhannu'r gofal am blentyn o dan 16 oed
- byddech wedi gallu hawlio'r Budd-dal Plant eich hun os nad oedd eich priod, eich partner neu'ch partner sifil wedi cael dyfarniad ar ei gyfer

### Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Deddf Diogelu Data 2018 yw gweithrediad y DU o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis asiantaethau neu adrannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF oni fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/data-protection

### Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae Siarter CThEF yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy